Gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg ac ni chaiff cais a gyflwynir yn Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Mae pob swydd yn agored i'w rhannu os na nodir fel arall. Mae Cyngor Sir Fynwy yn:

Gyflogwyr cyfle cyfartal ac mae'n croesawu ceisiadau gan bob adran o'r gymuned. Rydym yn gyflogwr ymroddedig hyderus o ran anabledd ac yn gyflogwr cyfeillgar i'r Lluoedd Arfog. Rydym yn ymwybodol o Awtistiaeth ac yn ymroddedig i ddileu rhwystrau i gyflogaeth. Rydym yn ymroddedig i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael ein gofal i gael mynediad i gyfleoedd newydd ac ennill profiad.

PROFFIL SWYDD

TEITL SWYDD:	Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Gofal Uniongyrchol
CYFEIRNOD SWYDD:	SAS553
GRADD:	BAND M SCP £55,747 - SCP £60,340
ORIAU:	37 yr wythnos
PATRWM GWAITH:	Yn unol â pholisi gweithio hyblyg ac anghenion y gwasanaeth
LLEOLIAD:	Prif weithle?
ATEBOL I:	Pennaeth Gwasanaethau Oedolion

Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Sir Fynwy ... Pwy ydym ni?

Rydym yn Wasanaethau Oedolion aml-ddisgyblaeth sy'n gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan i ddarparu gofal ansawdd uchel i bobl ar draws Sir Fynwy.

Ein Diben:

Rydym yn grŵp ymroddedig iawn o gydweithwyr ar draws gwasanaethau oedolion sy'n awyddus i wneud gwahaniaeth a chefnogi pobl. Rydym yn gyfrifol am greu'r amodau cywir ar gyfer rhagoriaeth ymarfer a chyflenwi cymorth i gyflawni ein nod gyda'r bobl a gefnogwn.

Gan symud ymlaen o ddull gweithredu seiliedig ar ddiffyg i ddull sy'n llwyr seiliedig ar gryfderau, rydym yn sicrhau y caiff ein holl ymwneud ei gyfarwyddo gan y bobl a gefnogwn gyda ffocws ar gyflawni'r deilliannau personol a fynegir ganddynt. Mae'r pellter a deithiwyd hyd yma yn dda a rydym yn parhau i symud i'r dull gweithredu hwn ym mhobman.

Mae gennym ddatganiad diben a rhai egwyddorion gweithredu sy'n llywio sut y gweithredwn:

Ein diben yw: **'Helpu pobl i fyw eu bywydau eu hunain'**

Y blaenoriaethau allweddol a'r egwyddorion gweithredu ar gyfer gofal uniongyrchol sy'n helpu i lywio sut y datblygwn ac y gweithredwn ein darpariaeth yw:

BLAENORIAETHAU

- Cadw pobl yn ddiogel ac iach – rydym eisiau i'r bobl a gefnogir i deimlo'n ddiogel, iach a bod rhywun yn gwrando arnynt. Mae ein dull gweithredu gofal seiliedig ar berthynas yn ystyried ymwybyddiaeth o'r gymuned ac ymgysylltu gyda ffrindiau, teuluoedd a chymunedau lleol i hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y rhai a gefnogant.
- Darparu gofal a chymorth seiliedig ar berthynas – rydym eisiau adeiladu perthynas gyda'r person a gefnogwn ac ymateb i'r hyn sy'n bwysig i'r person a gefnogir
- Adeiladu gweithlu cryfach – rydym eisiau i'n staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, cymhelliant a'u bod yn cael eu cefnogi. I wybod lle maent yn ffitio yn y sefydliad, gwybod rôl eu swydd ac yn teimlo'n hyderus yn rôl eu swydd, a theimlo fod ganddynt lais wrth ddatblygu'r gwasanaeth.
- Cydweithio – rydym eisiau i bawb sy'n ymwneud â gofal person i gydweithio fel tîm ac i weithio'n agosach gyda darparwyr gofal annibynnol/trydydd sector.
- Defnydd mwy craff o adnoddau – rydym eisiau dileu tasgau a wneir â llaw, ac awtomeiddio mwy arnynt. Rydym eisiau i'r tîm deimlo'n hyderus mewn defnyddio technolegau digidol ac i'r tîm awgrymu syniadau ar gyfer gwella.

EGWYDDORION

- Y dylai gwasanaethau gael eu gyrru gan bobl, ac nid system
- Bod llesiant staff yn ganolog i dimau effeithiol
- Cydnabod ein llwyddiannau a dathlu'r mawr a'r bach. Dysgu pan y gallem fod wedi gwneud pethau yn well.
- Gwelliannau a ddylai gael eu gyrru gan fuddion.
- Pobl yn cael mwy o amser i'w dreulio yn gofalu am ac ar 'yr hyn sy'n bwysig'
- Mae ffocws popeth a wnawn ar y canlyniadau ar gyfer y bobl a gefnogwn a'r deilliant gwasanaeth yn ei gyfanrwydd.

Diben y Swydd:

Diben y swydd yw arwain a datblygu ymhellach yr ystod o wasanaethau gofal cymunedol ansawdd uchel a ddarperir yn uniongyrchol i bobl Sir Fynwy. Arwain a datblygu gweithlu medrus iawn a chyd-gynhyrchu canlyniadau gydag unigolion i sicrhau y gallwn helpu pobl i arwain bywydau da.

Bydd angen i chi ddod â gweledigaeth a sgiliau cyfathrebu rhagorol i'r rôl eang ac aml-agweddol hon. Byddwch yn arweinydd credadwy gyda gwerthoedd rhagorol sy'n lleoli'r person wrth ganol popeth a wnewch.

Byddwch yn gweithio gyda phob partner i sicrhau ac arddangos y caiff gofal a chymorth ansawdd uchel ei ddarparu, y caiff deiliannau eu diwallu ac arddangos dysgu parhaus a datblygiad ar draws pob gwasanaeth.

Rydym angen rhywun sydd â hanes amlwg o lwyddiant mewn sicrhau newid. Bydd angen i chi fedru meddwl yn greadigol a bod yn gyfathrebydd effeithiol; mae'n bwysig y caiff eich gwerthoedd eu gyrru gan sicrhau y gall pobl fyw eu bywydau ein hunain.

Bydd gennych angerdd am ddatblygu ymarfer a byddwch yn gweld hyn fel y prif ffocws ac elfen hanfodol mewn cyflawni 'yr hyn sy'n bwysig'. Bydd angen i chi fod yn unigolyn brwdfrydig ac egniol a all barhau i symud ymlaen gyda thrawsnewid ymarfer mewn Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion. Credwn fod y dull gweithredu yr ydym wedi ei ddatblygu ar ei ffordd i wneud gwahaniaeth mawr i bobl, ond mae ymhellach i deithio.


Mae angen i chi fod yn dda am rwydweithio a chydweithio. Gallwch ddylanwadu ar y cyfeiriad teithio ac yn medru ysbrydoli pobl gyda'ch gweledigaeth o ymarfer ar gyfer y dyfodol. Yn ychwanegol byddwch yn rhan o dîm deinamig sy'n herio'r status quo ac ymdrechgu i wneud y pethau cywir. Mae hyn yn golygu y byddwch yn gweithio mewn amgylchedd deinamig gyda phobl o'r un anian.

Eich cyfrifoldebau yw:

Arweinyddiaeth

- Mewn cysylltiad ag eraill byddwch yn nodi gweledigaeth strategol glir ar gyfer gwasanaethau gofal uniongyrchol ar draws Sir Fynwy.
- Rhoi eglurdeb diben a ffocws ar yr hyn sy'n bwysig gan sicrhau fod y person yn parhau bob amser i fod â rhan, arwain ac yn y canol.
- Meithrin hyder a gwneud penderfyniadau gan y rhai sydd yn y safle gorau i arwain. Byddwch yn rhoi gwybodaeth glir a chyson i gefnogi eich timau i wneud eu penderfyniadau eu hunain.
- Bod yn rhywun a all gyfleu eich angerdd i'ch timau dros ddarparu cymorth o'r ansawdd uchaf. Byddwch yn arwain drwy esiampl.
- Byddwch yn rhoi eglurdeb am ein goblygiadau statudol ond byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i fod â ffocws ar ein meincnodau ein hunain ar gyfer ansawdd ac arloesedd.

- Datblygu a grymuso unigolion o fewn pob gwasanaeth i sicrhau diwylliant o welliant parhaus ac arweinyddiaeth ar bob lefel.
- Sicrhau fod y gwasanaethau a ddarparwch yn effeithiol o ran cost ac bob amser yn annog adolygu rolau, cymysgedd sgiliau staff a modelau darpariaeth newydd i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael.
- Cydlynu'n agos gyda'r ISPB, NCN ac OCG a gweithredu fel cyfathrebydd gweithredol a strategol hanfodol rhwng y staff o wasanaethau yr awdurdod lleol, gwasanaethau ieuchyd a'r sector gwirfoddol.
- Sicrhau strwythur rheoli llinell waith o fewn eich maes gwasanaeth sy'n hyrwyddo a hwyluso cyfathrebu effeithiol a chydlynu ar draws yr holl fframwaith cyflenwi gwasanaeth.
- Datblygu, ysgrifennu ac adrodd ar feysydd prosiect a datblygu allweddol, gan arwain wrth reoli prosesau newid fel sy'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys paratoi a chyflwyno papurau gwybodaeth ac adroddiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth, staff, rhanddeiliaid ac aelodau etholedig.
- Byddwch yn hyrwyddo partneriaethau 'seiliedig ar le' a sicrhau cymryd rhan weithgar mewn cyfathrebu a datblygu perthynas gyda grwpiau seiliedig ar gymuned sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau yn Sir Fynwy
- Gweithredu amcanion craidd o wahanol agweddau o'r sefydliadau partneriaeth a dehongli i gynlluniau gweithredu ymarferol sy'n cwmpasu'r agenda integreiddio ehangach, yn cynnwys: fframwaith adroddiadau blynyddol Cyngor Sir Fynwy, cynlluniau gweithredu llesgedd, Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, Cynllun Integredig Sengl Sir Fynwy ac IMTP.
- Dadansoddi ac asesu gwybodaeth sy'n gwrthdaro, gan wneud penderfyniadau yn seiliedig ar ffurfio barn a meddwl beirniadol i sicrhau canlyniadau priodol.
- Datblygu partneriaethau a pherthynas adeiladol gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan ddylanwadu ar yr agenda hyrwyddo newid.
- Cymryd cyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer cynllunio ar gyfer tywydd gwael a threfniadau ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol ac ieuchyd oedolion.



Gofal a Chymorth i Bobl

- Adnabod, arwain a datblygu cyfleoedd i wella profiad gwasanaethau Gofal

Cymdeithasol ar gyfer preswylwyr Sir Fynwy.

- Ailfodelu gwasanaethau fel yr amlinellir gan angen ac ysgogwyr lleol a chenedlaethol.
- Datblygu a gweithredu dull o fewn gwasanaethau gofal cymunedol ar gyfer rhannu ymarfer arloesol, safon uchel a seiliedig ar dystiolaeth.

Adnoddau Ariannol a Ffisegol

- Sicrhau darpariaeth Cynlluniau Busnes a Mandadau sy'n sicrhau strategaethau moderneiddio gwasanaeth a'r agenda gwella gwasanaeth/gostwng cost.
- Byddwch yn gyfrifol am sicrhau balans ariannol yn unol â phroses gyllideb y Cyngor. Cyflenwi defnydd effeithiol, monitro a rheoli cyllidebau gweithredol o fewn meysydd cyfrifoldeb.
- Sicrhau fod systemau cadarn o lywodraethiant (clinigol, ariannol, staff, archwilio a gwybodaeth) a rheoli risg yn eu lle.
- Byddwch yn cefnogi'r Arweinwyr ar draws gwasanaethau gofal uniongyrchol gyda'r cyfrifoldebau rheoli cyllideb gan sicrhau atebolrwydd ar bob lefel o'r sefydliad.

Risg, Llywodraethiant a Sicrwydd Ansawdd

- Monitro a chynnal safonau uchel o ofal a darpariaeth gwasanaeth a darparu datrysiadau blaengar i wella ansawdd gwasanaeth.
- Sicrhau fod ffocws y gwasanaeth a ddarperir gan yr holl staff ar ei ddarpariaeth, gan wneud y defnydd gorau o'u sgiliau a'u gwybodaeth arbenigol yn unol gyda safonau ar gyfer cofrestru unigol.
- Arwain a chymhell y timau proffesiynol ac unigolion o fewn y gwasanaeth i ddarparu gwasanaeth ansawdd uchel sy'n effeithiol, effeithlon ac wedi ei seilio ar fframwaith llywodraethiant a pherfformiad cadarn.
- Cefnogi ymgysylltiad y bobl y ddarparwn ofal a chymorth iddynt a gofalmwyr wrth fonitro darpariaeth gwasanaeth a sicrhau fod gwasanaethau yn ymateb i'w hanghenion.
- Cynnal archwiliadau ac adrodd ar ganfyddiadau i lywio cynllunio, gwella darpariaeth gwasanaeth ac effeithlonrwydd cost clinigol.
- Delio mewn modd sensitif gyda phob math o gŵyn gan osgoi esgyn lle'n bosibl, ymchwilio'r gŵyn a gweithredu unrhyw newidiadau ar gyfer gwella a ddangosir gan y canfyddiad mewn cysylltiad gyda'r pennaeth proffesiynol perthnasol.
- Sicrhau fod cynlluniau iechyd a diogelwch priodol yn eu lle mewn cysylltiad gyda'r PFI e.e. gwagu adeilad, digwyddiad mawr, nwy meddygol ac yn y blaen.
- Cymryd cyfrifoldeb am sicrhau fod Cofrestri Risg yn cael eu cynnal, eu rheoli ac yr adroddir arnynt ar sail flynyddol neu fel sydd angen.
- Cefnogi eich tîm arweinyddiaeth i ddatblygu systemau i fonitro ansawdd ymarfer drwy archwilio a mesur risg, cwynion, meincnodi a sicrhau y cyflwynir newidiadau i ymarfer a'u monitro lle'n briodol.
- Sicrhau y defnyddir systemau effeithiol i ddilysu fod staff cofrestredig wedi cofrestru'n briodol i ymgymryd â'u swydd.
- Cynghori ar a delio gyda materion o ddisgyblaeth, cymhwysedd ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer staff o fewn eich meysydd gwasanaeth yn unol gyda pholisi perthnasol y sefydliad ac arweiniad proffesiynol.
- Sicrhau fod systemau yn eu lle ar gyfer adolygu digwyddiadau clinigol a heb fod yn glinigol, gan sicrhau fod staff yn hyderus i adrodd digwyddiadau anffodus.
- Hyrwyddo partneriaethau gwaith effeithlon gyda chyrff statudol ac anstatudol, cleifion a'r cyhoedd.

Rheoli Perfformiad

- Sicrhau bod amcanion gwasanaeth clir yn unol â chynllun busnes y gwasanaeth.
- Sicrhau y caiff ffurflenni ystadegol priodol eu dychwelyd drwy systemau cronfa ddata a ddynodwyd i ddiwallu anghenion gwasanaethau, proffesiynau a rheolwyr sy'n

gweithredu o fewn pob tîm.

- Arwain ar fonitro, adolygu a rheoli perfformiad y gwasanaeth yn rheolaidd, gan ddefnyddio data perfformiad i ddechrau datblygiadau gwasanaeth i sicrhau gwelliannau yn yr ardal a dynodi modelau priodol ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.
- Darparu cyfathrebu ysgrifenedig ansawdd uchel arall ar ffurf adroddiadau, cynlluniau busnes a chanllawiau adrannol a chynlluniau busnes strategol fel sydd angen.
- Cadeirio a mynychu cyfarfodydd priodol yng nghyswllt elfennau gweithredol a strategol y gwasanaeth i sicrhau ansawdd, sicrhau newid a hysbysu am gynnydd/rhwysterau ac yn y blaen.

Unigolyn Cyfrifol

Byddwch yn dal rôl yr *Unigolyn Cyfrifol* fel y manylir yn Neddff Cofrestru ac Arolygu Gofal Cymdeithasol [Cymru] 2016.

Mae'r cyfrifoldebau yn cynnwys:

- Sicrhau fod trosolwg effeithlon o'r gwasanaeth [Rheoliad 60] sydd yn:
 - canolbwyntio ar lesiant a chanlyniadau personol unigolion;
 - gwrandao ar unigolion;
 - ymateb yn gadarnhaol i unrhyw bryderon neu gwynion;
 - dim yn rhoi unigolion mewn risg diangen;
 - sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer unigolion;
 - cyflawni datganiad diben;
 - sicrhau nifer digonol o staff sydd wedi eu hyfforddi, yn gymwys ac yn fedrus i gyflawni eu rôl.
- Byddwch yn cynnal ymweliadau i bob un o'r gwasanaethau a reoleiddir o leiaf bob tri mis [rheoliad 73] i sicrhau fod gwasanaethau yn gweithredu yn ôl eu 'Datganiad Diben' ac i sicrhau trosolwg ansoddol effeithlon. Mae hyn yn cynnwys cwrdd gyda phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau ac aelodau ein timau. Byddir yn paratoui adroddiad ar gyfer pob ymweliad.
- Cyfrifoldeb am sicrhau adnoddau digonol ar gyfer pob gwasanaeth a reoleiddir, yn ariannol a hefyd gysylltiedig â staff. [Rheoliad 74]
- Bod trefniadau addas yn eu lle i asesu, monitro a gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys adroddiad ddwywaith y flwyddyn ar ansawdd y gwasanaeth ac argymhellion ar gyfer gwella [Rheoliad 80].
- Byddwch yn cwblhau datganiad cydymffurfiaeth a'r ffurflenni blyneddol ar gyfer y gwasanaeth [Rheoliad 81]

Adnoddau Dynol, Hyfforddiant ac Addysg

- Rheoli llinell a bod yn gyfrifol am sicrhau system effeithiol o reoli perfformiad, yn cynnwys gwerthuso a datblygiad personol, ar gyfer pob adroddiad uniongyrchol a'u staff, yn cynnwys cynllunio olyniaeth a gweithlu.
- Sicrhau fod eich tîm arweinyddiaeth yn gwybod am eu cyfrifoldebau rheoli ar gyfer materion adnoddau dynol o fewn eu meysydd cyfrifoldeb.
- Gweithio gyda'r tîm Gweithlu a Datblygu Sefydliadol i sicrhau fod polisiâu a phrosesau Adnoddau Dynol cadarn yn eu lle ar gyfer pob maes o gyfrifoldeb gweithredol.
- Sicrhau rheolaeth adnoddau dynol effeithiol ar gyfer pob aelod o'r tîm gan sicrhau y dilynr polisiâu proffesiynol a rheoli llinell perthnasol ar bob amser yn unol â pholisiâu a gweithdrefnau'r awdurdod.
- Mewn cysylltiad gyda'r tîm arweinyddiaeth, arwain wrth recriwtio, dethol, cynefino staff, hyfforddi, datblygu, blaenoriaethu llwyth gwaith, goruchwyliaeth broffesiynol, gwerthuso ac adolygu perfformiad staff cofrestredig yn effeithiol yn unol gyda phrotocolau a gytunwyd gan sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i safonau proffesiynol, canllawiau a gofynion.
- Cydlynw a chynhyrchu trefniadau cynllun hyfforddi yng nghyswllt datblygu proffesiynol

parhaus i sicrhau fod gan yr holl staff o fewn eich timau gyfleoedd digonol ar gyfer gwerthuso, hyfforddi a datblygu sy'n diogelu gofynion hyfforddi statudol, gorfodol a chofrestredig.

- Gweithio'n agos gyda'ch tîm arweinyddiaeth i sicrhau y gellir monitro a thrin cymwyseddau ac anghenion datblygu, materion gallu ac ymddygiad yn unol â strwythurau/safonau proffesiynol presennol.
- Sicrhau eich bod yn cynnal eich datblygiad proffesiynol eich hun, gan gymryd rhan weithgar yn eich gwerthusiad blynyddol a goruchwyliaeth reolaidd.
- Byddwch yn sicrhau y caiff anghenion hyfforddiant ac addysg eu cyflawni yng nghyswllt deddfwriaeth newydd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddarpariaeth gwasanaeth.

Cyfathrebu

- Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad mewn sefyllfaoedd lle mae angen cyfleu a gweithredu syniadau neu gysyniadau cymhleth iawn ar draws y sefydliad mewn iaith rwydd ei deall.
- Datblygu perthynas waith agos gyda'r undebau llafur a chryf proffesiynol i hwyluso cysylltiadau da gyda chyflogeion i alluogi'r Cyngor Sir i gyflawni ei dargedau ariannol ac amcanion busnes.
- Cyfathrebu'n effeithiol ac yn huawdl mewn sefyllfaoedd heriol a chynhennus. Rhoi cyflwyniadau ac adroddiadau cymhleth mewn amrywiaeth o fforymau – proffesiynol, gweithredol a strategol – gan gyflwyno gwybodaeth sy'n llywio ar wahanol agweddau o'r gwasanaeth, dadansoddiad data ac effaith y newid/gwella gwasanaeth.
- Hyrwyddo ymchwil, annog a chynnwys staff wrth ddatblygu syniadau a dulliau newydd ar gyfer gwella'r gwasanaeth.

Rhyddid i Weithredu

- Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am reolaeth weithredol gwasanaethau cymunedol i oedolion ar draws Sir Fynwy gan gydbwyso'r angen am ddatblygiad gwasanaeth rhagweithiol ac arweinyddiaeth gyda galw ymatebol cyfrifoldebau gweithredol a rhanddeiliaid.
- Bydd angen i ddeiliad y swydd ddeall a chrynhof dogfennau cymhleth, cymharu ffeithiau a dadansoddi data am sefyllfaoedd o amrywiaeth o ffynonellau, datblygu opsiynau ac asesu risgiau a chyfleoedd i'r sefydliad a hwyluso adeiladu consensws a gwneud penderfyniadau.

Ymdrech Gorfforol ac Ymdrech Fyddliol

- Mae gofyniad rheolaidd i deithio rhwng adeiladau'r awdurdod lleol ar draws y sir a safleoedd eraill yn aml gydag amser cyfyngedig rhwng cyfarfodydd.
- Bydd angen canolbwyntio dwys ar amrywiaeth eang o faterion cymhleth drwy gydol y dydd.
- Yn aml bydd angen i ddeiliad y swydd addasu i newid mewn blaenoriaethau ac ailffocysu eich gwaith eich hunan ac eraill ar feysydd blaenoriaeth newydd a all fod angen gweithredu brys.
- Bydd deiliad y swydd yn cymryd rhan yn ac yn hwyluso cyfarfodydd sydd angen lefel uchel o ganolbwyntio ar ystod eang o bynciau, gydag amrywiaeth o gynulleidfaoedd a chymysgedd o fynychwyr.

Ymdrech Emosiynol

- Bydd y swydd yn golygu fod angen negodi dyddiol gydag uwch gynrychiolwyr ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, cyfarwyddwyr a rheolwyr mewn economi iechyd a gofal cymdeithasol dan gyfyngiadau ariannol yn cwrpasu materion sy'n cael effaith sylweddol ar ansawdd a nifer gwasanaethau, herio ymarfer a phrosesau rheolaeth sefydledig.
- Bydd angen i ddeiliad y swydd hefyd ddelio mewn modd cadarnhaol a phrydlon gyda

phryderon staff a phroblemau personol, herio staff ar unrhyw ymddygiad amhriodol neu berfformiad gwael ac ymchwilio a delio gyda chwynion a digwyddiadau difrifol fel sydd angen.

Iechyd a Diogelwch

- Mae gan bawb a gyflogir ddyletswydd gofal statudol dros eu diogelwch proffesiynol eu hunain ac eraill. Mae angen iddynt gydweithredu rheolwyr i alluogi'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Sir i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol.
- Gweithredu'n gyfrifol yng nghyswllt eu hiechyd, diogelwch a llesiant eu hunain a chydweithwyr gan ddilyn arferion gwaith diogel a chydymffurfio gyda pholisi iechyd a diogelwch yr awdurdod lleol; mae hyn yn cynnwys mynychu hyfforddiant iechyd a diogelwch gorfodol.

Dyma'r hyn y gallwn ei ddarparu i chi:-

- Cyfle i ddysgu a datblygu o fewn eich rôl bresennol i ddatblygu eich gyrfa.
- Bod yn rhan o dîm arweinyddiaeth cefnogol ac uchelgeisiol iawn.
- Y gallu i weithio'n ystwyth, yn amodol ar fod anghenion y gwasanaeth yn cael eu diwallu.
- Y cyfle i ddatblygu ymhellach eich sgiliau yn y Gymraeg.
- Pecyn cyflog cystadleuol.
- Cynllun pensiwn llywodraeth leol.
- Polisi gweithio ystwyth.
- Ystod o fuddion a gostyngiadau ar gyfer gwasanaethau lleol.
- Ymdeimlad o falchder a boddhad swydd yn gweithio gydag ystod amrywiol o wasanaethau a partneriaid y Cyngor.
- Bod yn was cyhoeddus.

Beth arall sydd angen i chi wybod..... Ein Gwerthoedd:

Caiff ein diben ei seilio ar ymdeimlad glir o bwy ydym fel sefydliad. Disgwylwn i'r bobl sy'n gweithio gyda ni i rannu set gref o werthoedd a disgwylwn y bydd y rhain yn amlwg yn y ffyrdd y gweithiwn ac yr ymgysylltw'n gyda'n cymunedau.

Gwaith tîm:	Byddwn yn gweithio gyda chi a'ch partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan. Byddwn yn gwneud y gorau glas o'r syniadau a'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar ein pobl a'n lleoedd.
Tryloywder:	Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan a dweud wrthym beth sy'n bwysig.
Hyblygrwydd:	Rydym yn hyblyg, gan alluogi darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.
Tegwch:	Rydym yn rhoi cyfleoedd i bobl a chymunedau i ffynnu. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson.
Caredigrwydd:	Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb y gweithiwn gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthynas a'r cysylltiadau sydd gennym gyda'n gilydd wrth galon pob rhyngweithio.

ASESIAD SGILIAU YN Y GYMRAEG:

Byddai sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol.

GWIRIAD GWASANAETH DATGELU A WAHARDD (DBS): Oes DIOGELU:

Mae Diogelu ac Amddiffyn Plant ac Oedolion yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Ein nod yw cefnogi plant ac oedolion sydd mewn risg i fod mor ddiogel ag y gallant ac i gyflawni eu potensial. Mae holl weithwyr a gwirfoddolwyr y Cyngor yn gyfrifol am chwarae rhan yng

ngwaith lles, diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn risg. Bydd yr holl weithwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i'r lefel briodol o ddiogelu ac mae ganddynt ddyletswydd i gyflawni eu cyfrifoldebau personol dros ddiogelu.

Yn ychwanegol at hyn:

Mae'r holl weithwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gweithredu bob amser mewn ffordd sy'n gydnaws â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu meysydd o gyfrifoldeb ac fel rhan o'u hymddygiad cyffredinol.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gweithredu polisi Dim Ymysgu yn y Gweithle ac mae disgwyl i'r holl weithwyr i gydymffurfio gyda hyn.

Manyleb Person

Sut fyddwn ni'n gwybod os mai chi yw'r person cywir ar gyfer y swydd? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus byddwch wedi dangos:-

Gofyniad	Hanfodol neu Dymunol	Sut y profir (S) defnyddir i lunio'r rhestr fer
Addysg/Cymwysterau/Gwybodaeth		
Addysg i lefel gradd gyda chymwysterau ôl-raddedig mewn Arweinyddiaeth neu gymwysterau galwedigaethol cyfwerth	Dymunol	Cais
Gwybodaeth a phrofiad o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar gyfer darparwyr cofrestredig, unigolion cyfrifol ac arolygwyr Arolygiaeth Gofal Cymru.	Hanfodol	Cais Cyfweliad
Gwybodaeth helaeth o'r agenda polisi yn ymwneud â gofal cymdeithasol ac iechyd oedolion.	Hanfodol	Cais Cyfweliad
Profiad rheoli sylweddol a throsolwg o wasanaethau gweithredol .	Hanfodol	Cais Cyfweliad
Profiad		
Profiad sylweddol ar lefel rheolwr tîm neu gyfwerth o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (yn cynnwys cyllidebau, sicrwydd ansawdd, datblygu polisi).	Hanfodol	Cyfweliad/ Cais
Profiad o arwain ar ddatblygu gwasanaeth llwyddiannus yn cynnwys rheoli prosesau newid cymhleth.	Hanfodol	Cyfweliad
Profiad o arwain gweithlu mawr. Gyda gwybodaeth helaeth o Adnoddau Dynol yn cynnwys rheoli perfformiad, cynllunio gweithlu, rheoli gwrthdaro, cynllunio talent.	Hanfodol	Cyfweliad
Doniau a Sgiliau		
Profiad a gwybodaeth o weithio o fewn gwasanaeth a reoleiddir.	Hanfodol	Ffurflen gais
Dangos y gallu i ddarparu gwasanaeth ansawdd uchel sy'n canoli ar y person fel arweinydd.	Hanfodol	Cyfweliad
Trwydded gyfredol a mynediad i'ch car eich hun.	Hanfodol	Cyfweliad
Gallu i ddelio gyda sefyllfaoedd cymhleth o fewn cyd-destun Gofal Cymdeithasol (mewn amgylchedd o risg a her). Hyderus wrth arwain a gwneud penderfyniadau a chymryd risg diogel.	Hanfodol	Cyfweliad

Os ydych angen unrhyw wybodaeth bellach am y swydd hon, cysylltwch â Jenny Jenkins os gwelwch yn dda neu JennyJenkins1@monmouthshire.gov.uk

Dyddiad Cau: 5pm 04/12/2023

DYDDIAD CYFWELIAD: 08/12/2023